# Llais yr Andes

Cylchlythyr Dosbarthiadau Cymraeg
Rhif 2 Esquel a Threvelin Mawrth 1999.-

## DIWEDD Y TYMOR.

Diweddwyd y tymor yn Nhrevelin trwy gynnal noson lawen. Cynhaliwyd y noson yn neuadd Ysgol 57 ar yr 8fed o Ragfyr. Yn bresennol roedd Llysgennad Prydain Fawr yn Bs.As. sef William Marsden a'i briod. Mynegodd yntau ei fod wedi mwynhau´r profiad o wrando ar fyfyrwyr yr Ysgol yn adrodd, actio, canu a dawnsio. Cafwyd dwy eitem gan y Dosbarth gloywi, sgets gan Blwyddyn I "Y Sheraton", sgets plant"Lola Lindis", grŵp Glesni, plant Ysgol "Y Felin", datganiad ar yr acordion gan Vincent Evans, darllen cerdd o waith Waldo Williams gan Sandra De Pol, deuwad gan Iris Evana a Liliana Jones; unawd gan Sylvia Baldor, adroddiadau gan Omar Roberts, Alwen Green a Sara Borda. Hefyd cafwyd dawns werin a chyfraniad gan grŵp pop.Fel rhan o´r noson cyflwynodd yr athrawes Gymraeg Hazel Charles Evans dystysgrifau teilyngdod i´r myfyrwyr hynny oedd wedi dilyn y cwrs yn ystod 1998. Yn wir, roedd hi´n noson i´w chofio. Diolchodd Hazel i Sylvia, Sandra ac i Alun am lywyddu.

Ar nos Wener Rhagfyr 11eg. cynhaliodd Ysgol Gymraeg Esquel noson arbennig i gloi´r tymor yn neuadd y Jubilados. Yma eto cyflwynodd yr athrawes dystysgrifau i´r myfyrwyr.

Gladys Jones a Soraya Williams oedd wrth y llyw ac fe gafwyd amrywiaeth o sgetsys gan saith o ddosbarthiaddau. Canmolodd yr athrawes y myfyrwyr yn y ddwy ysgol am eu hymdrechion a dywedodd y byddai modd ffurfio "Cwmni Drama Cymraeg" ym 1999.

Cyflwynodd Hazel C. Evans ddwy ddraig goch mewn ffrâm o wydr ar ran Aur Roberts Llanuwchllyn i´w rafflo yn ystod y ddwy noson. Mrs. Meinir Evans de Lewis enillodd y raffl yn Nhrevelin a Juliana Carrizo oedd yr enillydd yn Esquel. Hefyd yn Esquel, cyflwynodd ffrind dda deisen "mil hojas"i´w rafflo ar gyfer y Ganolfan. Yn hytrach na thynnu rhif o´r het y tro hwn roedd yn rhaid i bobl ddyfalu pwysau´r deisen! Y buddugol oedd Victoria Pritchard a Hazel. Rhannwyd y deisen yn deg rhwng y ddwy ohonynt!

Ar ddydd Sul Rhagfyr 13eg. i goroni diwedd y tymor cynhaliwyd "Hapus Awr" yn Seion o dan ofal Sylvia Baldor ac Elda Griffiths. Daeth nifer ynghyd a chafwyd bendith yn canu emynau gyda Lizzie Freeman wrth yr organ drydan ac Alun Jones a Leo Medina yn cyfeilio ar y gitar. Darllenwyd o´r Ysgrythur gan Ariel Hughes ac Isaías Grandis a gweddïwyd gan HCE. Casglwyd swm o arian a bydd hwn yn mynd tuag at gostau teithio y sawl fydd yn mynd i Lambed eleni.

Wrth i´r 'Hapus Awr' ddirwyn i ben mynegodd Hazel y byddai hi'n ffarwelio â'r Andes ym 1999 ac yn dychwelyd i Gymru. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth a'u cyfeillgarwch.

## Mae atgofion yn bwysig iawn!

Ethel Morgan dw i. Enw fy nhad oedd Arthur Morgan ac yn y flwyddyn 1975 pan oedd o'n 84 mlwydd oed aethom ni i Gymru; yntau am y tro cyntaf. Ond doeddwn i ddim yn gwybod bod neges gan fy nhad, beth oedd o eisiau mynd i'r Capel yn Aberdar? Dyna lle cafodd ei fam rodd o Feibl mawr ac yr oedd y diaconiaid wedi ysgrifennu arno pan oedd hi ond yn 17 mlwydd oed ac yn dod i Batagonia. Harriet Thomas oedd ei henw. Roedd hi'n darllen y Beibl am y pedwerydd tro pan fuodd hi farw.

Dw i eisiau dweud ein bod ni'n dau wedi cael croeso mawr yng Nghymru efo llawer o bobl ond y tro hwn dw i ddim yn mynd i enwi neb rhag ofn i fi anghofio rhywun ond mae'r rhaid i fi gofio am Bethan Lewis o Gaerdydd a aeth â ni yn ei char i Aberdar. Ar ôl bod i mewn yn y Capel mi ddywedodd fy nhad wrthyf . ' Heddiw ydy'r dydd pwysicaf yn fy mywyd' ac roedd ei lygaid o yn llawn dagrau. Mi wnes i sylweddoli fy mod i wedi bod yn help mawr iddo heb wybod fod ei freuddwyd o wedi dod yn wir.

Diolch Bethan.
Diolch Aberdar.
Diolch i bawb am wneud i ni deimlo mai yng Nghymru y mae ein gwreiddiau.

*Er cof am fy annwyl dad.*

Ethel Morgan.

---

## I Ddysgwyr, i ni, i bawb...

Tri pheth sy'n anodd eu 'nabod
Dyn, derwen a diwrnod
Y dydd yn troi,
Y pren yn gou
A'r dyn yn ddau wynebog.

---

## Cystadleuaeth.

Mae Ysgol Gymraeg yr Andes angen LOGO. Os dych chi'n gallu awgrymu rhywbeth cysylltwch â Gladys Jones de Cid yn Esquel neu Sandra De Pol yn Nhrevelin. Gwobr i'r buddugol (enillydd), crys T, rhodd gan Hazel C. Evans.

La Escuela de Galés de los Andes necesita un LOGO. Si pueden sugerir alguno por favor, comuníquense con Gladys Cid en Esquel o Sandra en Trevelin. La Prof. Hazel ha donado como premio-estímulo una remera con el Logo de Llanelli.

Diolch yn fawr i chi.

## Aros mae'r mynyddau mawr.

Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo trostynt mae y gwynt;
Clywir eto gyda'r wawr
Gân bugeiliaid megis cynt.
Eto tyfa'r llygad dydd
Ogylch traed y graig a'r bryn:
Ond bugeiliaid newydd sydd
Ar yr hen fynyddoedd hyn.

Ar arferion Cymru gynt
Newid ddaeth o rod i rod;
Mae cenhedlaeth wedi mynd,
A chenhedlaeth wedi dod.
Wedi oes dymhestlog hir
**....H C E ..** mwy nid yw:
Ond mae'r heniaith yn y tir,
A'r alawon hen yn fyw.

Ceiriog.

## DIOLCH I CHI

## Yn Fyr

- Dymuniadau da i Alun Jones sy wedi mynd i Goleg Llanymddyfri am flwyddyn.
- Llongyfarchiadau i Lydia Jenkins ar ennill cystadleuaeth "Yr Hen Wlad".
- Penblwydd Llawen i'r achos yn Seion Esquel ar ddathlu 95 mlwydd oed ddiwedd Ionawr.

- **Croeso cynnes i Sioned**
- **Huws a fydd yn ymgymryd â'r gwaith.**

Da gweld y gwaith ar y Ganolfan wedi dechrau.

## Osgoi Beirniadaeth

Cyngor rhyw- henwr i mi
"Os am osgoi beirniadaeth
Rho heibio dy genhadaeth
Beth bynnag fo, a phaid a gwneuthur dim
Ac os beirniedir di am hynny
Paid a synnu".

Sarnicol

* *Allan o'r Awen Lawen.*

Diolch i Mrs. Meinir Evans.

---

Digon i dynnu dŵr o'ch dannedd!(Ena Thomas o "Heno", S4C)

### Sgoniau melys: cymysgedd sylfaenol

*Cynhwysion*
*Y Sgoniau*

225 g o flawd codi
1 llwy o bowdr pobi
50 g o siwgr caster (fein)
50 g o fenyn
150 ml o laeth
1 wy wedi i bwno neu laeth i roi sglein

*Y Llenwad*

275 ml o hufen dwbl (Ilolay)
225 g o fafon

*Dull*

- Hidlwch y blawd a'r powdr pobi i mewn i bowlen fawr.
- Rhwbiwch y menyn i mewn i wneud y blawd yn debig i friwsion bara.
- Ychwanegwch y siwgr, a chymysgwch yn does meddal, cryf gyda'r llaeth. Curwch yn ysgafn a rholiwch i drwch o dri-chwarter modfedd (2cm) cyn ei dorri'n siapiau crwn.
- Rhowch ar dun pobi wedi'i iro a choginiwch am 10-15 munud ar dymheredd 200° C.
- Pan fyddant yn barod ac wedi oeri, torrwch yn eu hanner a llenwch â hufen a mafon.

Cyngor: Dyma ychydig o syniadau i chi i amrywio'r rysáit sylfaenol. Paratowch y gymysgedd fel uchod ac ychwanegwch y cynhwysion sy at eich dant.

Las Clases de Galés estarán abiertas desde el mes de Marzo tanto en Esquel como en Trevelin. Cualquier colaboración o sugerencia será gratamente recibida.

Muchas gracias a todos.